# Papur Bwrdd - Cynllun Busnes 2026-27 Perfformiad Chwarter Un

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **29 Gorffennaf 2026** |
| **Teitl y Papur:** | Adroddiad Perfformiad Cynllun Busnes 2026-27: Ch1 |
| **Cyfeirnod y Papur:** | 26-07-B08 |
| **Noddwyd y papur gan:** | Prys Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth) |
| **Paratowyd y papur gan:** | Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni)<br>James Cornelius (Arweinydd Tîm - Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad)<br>Tîm Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni) |
| **Pwrpas y papur** | Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 Cynllun Busnes 2026/27 a newidiadau i'r disgrifiad o un ymrwymiad ac un metrig tuedd a nodi'r perfformiad mewnol a'r sefyllfa risg gysylltiedig. |
| **Crynodeb** | **Perfformiad Ch1:**<br>• **Cynllun Busnes - Perfformiad Ymrwymiadau'r Cynllun Busnes:**<br>  ○ Ch1 Gwirioneddol:0 Coch, 9 Ambr, 21 Gwyrdd a 5 ymrwymiad na ellir eu hadrodd..<br>  ○ Chwarter Olaf: 0 Coch, 9 Ambr, 21 Gwyrdd a 5 ymrwymiad na ellir eu hadrodd.<br>  ○ Sefyllfa ddisgwyliedig diwedd blwyddyn (Ch4): 0 Coch, 6 Ambr, 29 Gwyrdd<br>• **Cynllun Busnes - Perfformiad Metrigau:**<br>  ○ Ch1 Gwirioneddol: 1 Coch, 2 Ambr a 10 Gwyrdd ac 8 ymrwymiad na ellir eu hadrodd<br>• **Perfformiad mewnol:**<br>  ○ Ch1 Gwirioneddol: Ch1 Gwirioneddol: 1 Coch, 1 Ambr, 5 Gwyrdd<br>  ○ Chwarter Olaf: 0 Coch, 2 Ambr, 6 Gwyrdd, 1 Llwyd: |

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn Cynllun Busnes 2026/27 ar gyfer Ch1, ac yn ymdrin â'r canlynol:
    - Cynnydd yn erbyn y 35 Ymrwymiad Cynllun Busnes a nodwyd yn y Cynllun Busnes.
    - Cynnydd yn erbyn 21 o'r 42 metrig tueddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes.
    - Detholiad o fesurau perfformiad mewnol.

2. Mae perfformiad yn cael ei asesu yn erbyn sefyllfa'r chwarter blaenorol a'r sefyllfa ddiwedd blwyddyn a ragwelir. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar yr ymrwymiadau Cynllun Busnes hynny a'r metrigau a aseswyd fel Coch neu Ambr, ynghyd â'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni eu Llwybrau arfaethedig at Wyrdd.

3. Yr eithriad yw cynllunio a thrwyddedu, lle mae perfformiad yn destun lefel uchel o ddiddordeb cyhoeddus a gwleidyddol. Ar gyfer y gwasanaethau hyn, mae'r metrigau perthnasol wedi cael eu cynnwys yn **Atodiad 4** , hyd yn oed pan fo perfformiad yn cael ei adrodd fel Gwyrdd ar hyn o bryd.

4. Cynigir newidiadau i ddisgrifiad un ymrwymiad ac un metrig tuedd o blith y rhai a gyhoeddwyd yn y Cynllun Busnes. Mae'r diwygiad cyntaf yn diweddaru'r ymrwymiad sy'n ymwneud â Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan er mwyn iddo roi gwell adlewyrchiad o'r gwaith a gynlluniwyd i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae'r ail ddiwygiad yn diweddaru'r disgrifiad o fetrig tuedd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio. Mae'r newidiadau arfaethedig hyn yn cael eu nodi fel a ganlyn:

    - Teitl yr ymrwymiad o "Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan: Cynyddu capasiti EVCI yn ôl 61 o wefrwyr ar draws 16 safle i gyflymu datgarboneiddio'r fflyd yn 2027/28" i "Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan: Gwella effeithioldeb ac effeithlonrwydd ein seilwaith Cerbydau Trydan a'n fflyd Cerbydau Trydan drwy gynllunio a chychwyn rhaglen waith"
    - Teitl metrig tuedd o "Proses cynllunio datblygu: cynnal lefel gwasanaeth o 98% ar gyfer ymatebion ymgynghoreion statudol amserol" i "Ymatebion cynllunio datblygu"

5. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r newidiadau hyn.

6. Bydd y gyfres lawn o 42 metrig tuedd yn cael ei chynnwys yn adroddiad Ch2 wrth i drefniadau casglu, prosesu a chydgrynhoi data gael eu halinio â'r cylch adrodd chwarterol.

## Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 Cynllun Busnes 2026/27

7. Yn Ch1, mae 0 Ymrwymiad yn cael ei asesu fel Coch; 9 fel Ambr; a 21 fel Gwyrdd. O'r metrigau tueddiadau a adroddwyd y chwarter hwn mae 1 yn cael ei asesu fel Coch; 2 fel Ambr a 10 fel Gwyrdd. Mae’r dangosfwrdd perfformiad llawn, sy'n cynnwys yr holl ymrwymiadau a’r metrigau tueddiadau, yn cael ei ddarparu yn **Atodiad 1.** Mae dangosfwrdd sy’n cynnwys yr holl fetrigau tueddiadau yn adrodd ar gyfer Ch1 yn cael ei ddarparu yn **Atodiad 3.**

8. Ar ddiwedd Ch4 2025/26, aseswyd 1 Ymrwymiad fel Coch, 9 fel Ambr a 18 fel Gwyrdd. Fel rhan o'r broses adrodd diwedd y flwyddyn, gwnaethom ymrwymo i fonitro cyflawni camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r asesiadau Coch ac Ambr hynny i sicrhau bod eu Llwybrau arfaethedig at Wyrdd yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol newydd. Ar gyfer y 9 ymrwymiad cysylltiedig eleni, mae 5 yn adrodd yn wyrdd ar gyfer Ch1.

9. Tabl 1: Ymrwymiadau Cynllun Busnes Coch / Ambr yn Ch1

| **Ymrwymiad** | **Ch1 Gwirioneddol** | **Diwedd Blwyddyn Disgwyliedig** |
|---|---|---|
| **WBO1 Byd Natur Wrthi’n Gwella** | | |
| **Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn (REN): Mae prosiectau wedi'u sefydlu ac ar y gweill ledled Cymru.** | Ambr | Gwyrdd |
| **Roedd yr ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd Ch1 oherwydd oedi wrth gwblhau fframwaith Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn Cymru gyfan. Rhagwelir y bydd yn cyrraedd Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.**<br>Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu, a chytunwyd ar ddull ar gyfer targedu'r dyraniad cyllid o £210,000 i gyflawni'r effaith fwyaf. Mae’r gwaith o ddatblygu’r fframwaith cenedlaethol a chanllawiau ategol ar gyfer timau Lle ar y gweill.<br>**Y Llwybr tuag at Wyrdd** yw cwblhau'r fframwaith a'r canllawiau trwy gydweithio ar draws Lle, Polisi, Tystiolaeth a DDaTh. Mae llywodraethu bellach yn gliriach, ac mae tystiolaeth ac arbenigedd presennol CNC yn cael eu defnyddio i gefnogi'r ddarpariaeth. Mae hyn yn rhoi hyder y bydd yr ymrwymiad yn dychwelyd i Wyrdd yn Ch2 ac yn parhau i fod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn. | | |
| **Cyngor ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu'r camau gweithredu dewisol a chydweithredol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys adnewyddu'r cynllun rheoli coedwigoedd a chwmpasu gwasanaeth gwirio cynllun rheoli coetiroedd newydd.** | Ambr | Gwyrdd |

| | | |
|---|---|---|
| **Mae'r ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd y chwarter gan fod angen adborth o hyd ar y pum swp sy'n weddill o fanylebau Camau Gweithredu Cyfalaf ar gyfer Haen Ddewisol SFS,** ochr yn ochr ag asesiad parhaus o'r goblygiadau ar gyfer caniatáu, trwyddedu a chydsynio. Yn ystod y chwarter, darparwyd adborth i Lywodraeth Cymru ar 11 swp o fanylebau Camau Gweithredu Cyfalaf, a datblygwyd proses ddosbarthu ar gyfer ymgeiswyr sydd angen asesiad Safle Dynodedig a Chynllun Rheoli Coetiroedd. Rhagwelir y bydd yr ymrwymiad yn cyflawni Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.<br>**Y Llwybr tuag at Wyrdd** yw cytuno ar gerrig milltir allweddol gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ein rôl wrth gyflawni Camau Dewisol y Cynllun Rheoli Coetiroedd, cwblhau'r asesiad o effeithiau trwyddedu, cydsynio a chaniatáu, a chwblhau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn yn rhoi hyder y bydd yr ymrwymiad yn cyflawni Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn. | | |
| **Sefydlu mentrau adfer rhywogaethau: sef (i) Fframwaith Adfer Rhywogaethau, (ii) rhaglen waith afancod LIC/CNC** | Ambr | Gwyrdd |
| **Roedd yr ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd Ch1 oherwydd oedi wrth gwblhau proses flaenoriaethu'r Fframwaith Adfer Rhywogaethau. Rhagwelir y bydd yn cyrraedd Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.**<br>Mae dull arfaethedig ar gyfer blaenoriaethu rhywogaethau adar wedi'i rannu ag arbenigwyr a bydd yn darparu model ar gyfer grwpiau rhywogaethau eraill. Mae Rhaglen Waith Afancod LIC/CNC hefyd yn mynd rhagddi, gyda Chynghorydd Arbenigol Arweiniol CNC wedi'i recriwtio cyn carreg filltir Ch2.<br>**Y Llwybr tuag at Wyrdd** yw cytuno ar y dull blaenoriaethu a'i gymhwyso ar draws grwpiau rhywogaethau eraill. Mae CNC hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i egluro unrhyw ofynion pellach ar gyfer targedau a dangosyddion rhywogaethau. Gan fod gwaith ymgysylltu arbenigol ar y gweill, ceir hyder y bydd y ddarpariaeth yn cyflymu ac yn cyflawni Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn. | | |
| **Metrig Tuedd** | **Metrig a Adroddwyd** | **Ch1 Gwirioneddol** |
| **Nifer y SoDdGAau a hysbyswyd neu a ailhysbyswyd.** | 2 SoDdGA wedi'u hysbysu neu wedi'u hail-hysbysu | **Coch** |
| Hysbyswyd dau SoDdGA—Wern Ddu Uchaf a Chors Cae Gweunydd, sy'n gorchuddio 18.58 hectar—yn ystod Ch1. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd tuag at y targed blynyddol o wyth hysbysiad neu ail-hysbysiad SoDdGA, mae'r ddarpariaeth ar hyn o bryd islaw'r lefel sy'n ofynnol i gyflawni'r targed blynyddol ac felly mae wedi'i raddio'n Goch.<br><br>Mae rhaglen gyflawni fesul cam wedi'i sefydlu ar gyfer 2026/27 i gefnogi cyflawniad cyson a rheoli'r capasiti cymeradwyo. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd saith hysbysiad pellach yn mynd ymlaen drwy'r biblinell, gyda dau yn Ch2, tri yn Ch3 a dau arall yn Ch4. Bydd adnoddau ychwanegol a ariennir drwy Gymorth Grant Bioamrywiaeth yn cryfhau capasiti ymhellach ac yn cefnogi gwell perfformiad dros weddill y flwyddyn. Mae'r llwybr tuag at wyrdd yn heriol, disgwylir i'r camau gweithredu sydd ar waith nawr gryfhau'r ddarpariaeth a gwella hyder mewn perfformiad dros weddill y flwyddyn. | | |

<table>
<tr><th colspan="3">WBO2: Mae cymunedau’n gallu gwrthsefyll Newid Hinsawdd</th></tr>
<tr><td>Ymrwymiad</td><td>Ch1 Gwirioneddol</td><td>Diwedd Blwyddyn Disgwyliedig</td></tr>
<tr><td>Gweithredu fel hwylusydd ar gyfer partneriaeth Cynllun Twf Canolbarth Cymru: i gefnogi cyfleoedd datgarboneiddio ar gyfer y sector cludo pren crwn, fel rhan o gyfraniad CNC at fenter Ymchwil System Gyfan ar gyfer Arloesi a Datgarboneiddio (WSRID) Llywodraeth Cymru.</td><td>Ambr</td><td>Ambr</td></tr>
<tr><td colspan="3">Roedd yr ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd Ch1 a rhagwelir y bydd yn aros yn Ambr ar ddiwedd y flwyddyn gan bod y cam nesaf yn dibynnu ar gyllid allanol a chymeradwyaeth y rhaglen.<br>Mae ail gam cais Cynllun Twf Canolbarth Cymru wedi'i gwblhau ac wedi'i dderbyn yn gadarnhaol gan dîm Newid Hinsawdd WSRID Llywodraeth Cymru. Mae gwaith dichonoldeb wedi nodi llwybr ar gyfer treialu tanwyddau hydrogen gwyrdd mewn cludo pren crwn ac offer melinau llifio trwm, gan ddarparu sail ar gyfer datgarboneiddio yn y dyfodol.<br>Y Llwybr tuag at Wyrdd yw cynnal cefnogaeth rhanddeiliaid, cryfhau'r achos busnes a pharatoi'r cais nesaf am gyllid. Mae cerrig milltir cynlluniedig wedi'u cyflawni, ond mae amseriad penderfyniadau allanol yn golygu y bydd Gwyrdd yn annhebygol yn ystod 2026/27. Mae'r llwybr tymor hwy tuag at Wyrdd yn parhau i ddibynnu ar sicrhau cyllid i symud o ddichonoldeb at dreial ymarferol.</td></tr>
<tr><th colspan="3">WBO3: Atal Llygredd Hyd yr Eithaf</th></tr>
<tr><td>Ymgorffori newidiadau i’r dull rheoli digwyddiadau a ffyrdd o weithio : i alluogi ymateb â blaenoriaeth i ddigwyddiadau, gan ganolbwyntio adnoddau ar gyfer y rhai sy’n achosi’r niwed mwyaf</td><td>Ambr</td><td>Ambr</td></tr>
<tr><td colspan="3">Roedd yr ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd Ch1 a rhagwelir y bydd yn aros yn Ambr ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yn digwydd yn ôl y cynllun, ond mae ymgorffori dull rheoli digwyddiadau sy'n seiliedig ar risg a gwneud hynny’n llawn yn rhaglen aml-flwyddyn.<br>Mae'r adolygiad o bob un o'r 29 Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli digwyddiadau llygredd wedi dechrau. Bydd yn defnyddio dysgu gweithredol a chanllawiau presennol i gefnogi ymateb cyson yn seiliedig ar risg a niwed amgylcheddol. Mae gwaith hefyd yn parhau ar bolisïau, cynlluniau digwyddiadau, llwybrau adrodd ac offer cefnogi penderfyniadau.<br>Y Llwybr tuag at Wyrdd yw cwblhau cerrig milltir 2026/27 a ymgorffori'r dull diwygiedig ar draws CNC. Mae allbynnau cynlluniedig yn parhau i fod yn gyraeddadwy, ond bydd Gwyrdd yn dibynnu ar fabwysiadu ehangach gan y sefydliad a thystiolaeth bod adnoddau'n cael eu cyfeirio'n gyson tuag at ddigwyddiadau sy'n achosi'r niwed mwyaf.</td></tr>
<tr><td>Cyflawni Rhaglen Taclo Troseddau Gwastraff : tarfu ar droseddau gwastraff trefnedig drwy ymyrraeth aml-asiantaeth dan arweiniad cudd-wybodaeth.</td><td>Ambr</td><td>Ambr</td></tr>
<tr><td colspan="3">Roedd yr ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd Ch1 a rhagwelir y bydd yn aros yn Ambr ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod cynyddol troseddau gwastraff trefnedig a'r pwysau parhaus ar gapasiti gorfodi.</td></tr>
</table>

Mae adolygiad bwrdd gwaith esemptiad U1 bron â chael ei gwblhau, mae safleoedd metel sgrap blaenoriaeth uchel wedi'u hadolygu, ac mae gweithrediadau ar y cyd wedi digwydd gyda'r DVLA a'r Heddlu. Cafodd rhai ymweliadau safle eu gohirio oherwydd nifer gyfyngedig o swyddogion hyfforddedig a'r angen i flaenoriaethu gweithgaredd risg uwch mewn safleoedd Cerbydau Diwedd Oes.
**Y Llwybr tuag at Wyrdd** yw cynyddu capasiti gorfodi hyfforddedig, ehangu gweithgaredd sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth a chwblhau'r ymweliadau safle a'r ymgyrchoedd gwastraff adeiladu a dymchwel a gynlluniwyd. Bydd CNC hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Uned Ar y Cyd ar gyfer Troseddau Gwastraff i reoli risgiau trawsffiniol sy'n dod i'r amlwg. Mae cerrig milltir blynyddol yn parhau i fod yn gyraeddadwy, ond mae maint a chymhlethdod troseddau gwastraff trefnedig yn golygu y disgwylir i'r ymrwymiad ehangach aros yn Ambr ar ddiwedd y flwyddyn.

| Ymrwymiad | Ch1 Gwirioneddol | Diwedd Blwyddyn Disgwyliedig |
|---|---|---|
| **Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a DEFRA: i ddatblygu olrhain gwastraff digidol a rhannu data trawsffiniol, er mwyn deall llif gwastraff a helpu i ganfod gweithgarwch anghyfreithlon yn gynharach.** | Ambr | Gwyrdd |

**Roedd yr ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd Ch1 oherwydd cyflwyniad graddol Gwasanaeth Olrhain Gwastraff Digidol y DU a dibyniaeth CNC ar ddarpariaeth dan arweiniad Defra. Rhagwelir y bydd yn cyrraedd Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.**
Mae'r paratoadau'n mynd rhagddynt yn ôl y cynllun. Mae cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu i annog cyfranogiad yn y cyfnod beta, wedi'i gefnogi gan holiadur parodrwydd ar gyfer safleoedd derbyn gwastraff a gwedudalennau Citizen Space newydd.
**Mae'r Llwybr tuag at Wyrdd** i gefnogi gweithredu, cynyddu cyfranogiad a defnyddio data o'r cam cyntaf i wella dealltwriaeth CNC o symudiadau gwastraff ac adnabod gweithgaredd anghyfreithlon yn gynharach. Mae cerrig milltir paratoadol wedi'u cyflawni, gan roi hyder y bydd yr ymrwymiad yn cyflawni Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn, yn amodol ar barhau i gyflawni'r rhaglen dan arweiniad Defra.

| Metrig Tuedd | Metrig a Adroddwyd | Ch1 Gwirioneddol |
|---|---|---|
| **Penderfynu ar bob cais am drwydded a dderbynnir o fewn yr amserlenni statudol neu'r lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt.** | **85%** | Ambr |

Yn seiliedig ar ddata Ebrill a Mai, mae perfformiad ar hyn o bryd yn 85%, sy’n rhoi statws Ambr. Nid oedd data mis Mehefin pan ddaeth y cyfnod adrodd i ben a bydd yn cael ei adlewyrchu mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Mae perfformiad trwyddedu cyffredinol wedi dirywio ychydig o'i gymharu â Chwarter 4. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad cymedrol ym mherfformiad trwyddedu gwastraff, ochr yn ochr â phwysau parhaus o fewn trwyddedu Gosodiadau ac Adnoddau Dŵr. Fodd bynnag, mae perfformiad o ran trwyddedu Gosodiadau ac Adnoddau Dŵr wedi gwella ers y chwarter blaenorol wrth i fesurau lliniaru ddod i rym. Er bod perfformiad yn parhau i fod

| | | |
|---|---|---|
| islaw'r targed, mae'r duedd sy'n gwella yn y meysydd hyn yn rhoi mwy o hyder y bydd y sefyllfa'n gwella yn ystod gweddill y flwyddyn. | | |
| **Rheoli Digwyddiadau: Digwyddiadau categori Uchel ailadroddus yn yr un lleoliad fel canran o ddigwyddiadau categori Uchel wedi'u cadarnhau.** | **13%** | Ambr |
| Mae cyfran y digwyddiadau categori Uchel sy'n digwydd yn rheolaidd mewn lleoliadau yn parhau'n gymharol sefydlog. Amcangyfrifir bod y sefyllfa dros y flwyddyn dreigl ar gyfer Ch1 yn 13% o'i gymharu â llinell sylfaen tair blynedd o tua 12%, gan arwain at statws Ambr.<br><br>Yn ystod 2026/27, bydd gwaith yn parhau i fireinio'r adrodd a'r dadansoddi trwy welliannau Power BI, gan gynnwys mapio gwres ac adrodd gofodol. Bydd y gwelliannau hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o batrymau a lleoliadau digwyddiadau ailadroddus, gan gefnogi ymyriadau sy'n fwy targedig a sylfaen dystiolaeth gryfach ar gyfer lleihau digwyddiadau categori Uchel rheolaidd o'r fath dros amser. | | |
| **WBO 4 – Sut rydym yn gweithio dros Natur a Phobl** | | |
| **Cryfhau Gwasanaethau Pobl drwy wneud y canlynol:**<br>**• Gweithredu'r cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r cynllun Gwrth-Hiliaeth.**<br>**• Cwblhau'r Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch.** | Ambr | Ambr |
| **Roedd yr ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd Ch1 a rhagwelir y bydd yn aros yn Ambr ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi yn mynd rhagddynt, ond mae'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth mewn cyfnod cynharach.**<br>Mae adnodd parhaol wedi cael ei recriwtio i arwain y gwaith Dadansoddi Anghenion Hyfforddi technegol. Mae cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn parhau trwy lywodraethu sefydledig, goruchwyliaeth arweinyddiaeth a monitro'r gweithlu. Mae dilysu data hyfforddi wedi cymryd mwy o amser nag a gynlluniwyd, sydd wedi gohirio'r gwaith o'i uwchlwytho i'r System Rheoli Dysgu. Mae llywodraethu ar waith ar gyfer y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth, ac mae rhwydweithiau staff yn helpu i lunio ei flaenoriaethau.<br>**Y Llwybr tuag at Wyrdd** yw cwblhau uwchlwytho data hyfforddi, parhau i gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a sicrhau cymeradwyaeth y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth. Bydd yr ymrwymiad cyffredinol yn parhau'n Ambr nes bod y cynllun wedi'i gymeradwyo a bod tystiolaeth bod camau gweithredu blaenoriaethau yn cael eu cyflawni. | | |
| **Sefydlu ein dull y ymdrin â Chyllid Gwyrdd: nodi mecanweithiau ariannol sy'n barod i fuddsoddwyr a datgloi cyllid newydd.** | Ambr | Gwyrdd |
| **Roedd yr ymrwymiad yn Ambr ar ddiwedd Ch1 oherwydd yr amser a oedd ei angen i sefydlu llywodraethu a chytuno ar raglen waith Cyllid Gwyrdd. Rhagwelir y bydd yn cyrraedd Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.**<br>Mae gweithgor wedi'i sefydlu ac wedi adolygu drafft cyntaf y rhaglen waith a'r dull ategol. Mae'r Cylch Gorchwyl a'r rhaglen waith i fod i gael eu hystyried ar 22 Gorffennaf 2026.<br>**Y Llwybr tuag at Wyrdd** yw sicrhau cytundeb i'r dogfennau hyn a dechrau cyflawni'r rhaglen. Bydd hyn yn galluogi CNC i nodi mecanweithiau ariannol sy'n barod i fuddsoddwyr | | |

a ffynonellau ariannu newydd posibl. Gyda llywodraethu bellach yn cael ei gwblhau, mae hyder y bydd yr ymrwymiad yn cyflawni Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

## Adroddiad perfformiad mewnol

10. Ar gyfer Ch1 mae 1 o eitemau Coch, 1 Ambr a 5 Gwyrdd. Mae Tabl 2 yn dangos y rhai sy'n Goch neu Ambr yn Ch4 yn ogystal â Llwybrau tuag at Wyrdd. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 2.

11. Tabl 2: Adroddiadau perfformiad mewnol Coch / Ambr yn Ch1

| **Mesur mewnol** | **Ch1 Gwirioneddol** |
|---|---|
| **Datganiadau o Fuddiannau** | **Coch** |
| **Y llwybr tuag at Wyrdd** yw trwy gwblhau datganiadau sy'n weddill. Gan mai Ch1 fel arfer yw'r prif gyfnod ar gyfer adnewyddu datganiadau blynyddol, bydd staff nad ydynt wedi cwblhau eu datganiad eto yn cael eu hannog i wneud hynny, gan wella cydymffurfiaeth a sicrhau bod perfformiad yn ôl ar y trywydd iawn. | |
| **Ymateb i geisiadau Mynediad at Wybodaeth o fewn 20 diwrnod** | Ambr |
| **Y llwybr tuag at Wyrdd** yw trwy newidiadau gweithredol bach o fewn y tîm, gan gynnwys dull diwygiedig o gyflenwi gwasanaeth ateb ffôn gyda thimau eraill. Gan mai dim ond 0.2%  yn is na'r targed o 90% oedd y perfformiad y chwarter hwn, disgwylir i'r newidiadau hyn ddod â'r mesur yn ôl yn Wyrdd. | |

## Risgiau, Parodrwydd i Dderbyn Risg a Chyfleoedd

12. Rydym wedi crynhoi'r themâu risg allweddol a nodwyd yn y ffurflenni gan Adroddwyr y Tîm Arwain:

13. Mae cyfyngiadau ar gapasiti ac adnoddau yn parhau i fod yn risg sylweddol ar draws sawl ymrwymiad. Mae argaeledd staff, recriwtio, ymsefydlu, gofynion hyfforddi a phwysau gweithredol cystadleuol yn effeithio ar amserlenni cyflawni, yn enwedig mewn meysydd arbenigol lle mae arbenigedd allweddol yn gyfyngedig. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at nifer o ymrwymiadau Ambr a Choch ac yn arafu cynnydd yn erbyn cerrig milltir a gynlluniwyd.

14. Mae dibyniaethau ar sefydliadau allanol, penderfyniadau ariannu a threfniadau llywodraethu ehangach yn effeithio ar gyflawniad ar draws sawl ymrwymiad sy'n dibynnu ar benderfyniadau, dyraniadau ariannu, cymeradwyaethau neu fewnbynnau gan Lywodraeth Cymru, Defra, Ofwat, sefydliadau partner neu strwythurau llywodraethu newydd eu sefydlu. Mae'r dibyniaethau hyn yn creu ansicrwydd ynghylch amserlenni cyflawni ac yn cyfyngu ar allu  CNC i reoli cynnydd yn llawn.

15. Mae'r amser sydd ei angen i sefydlu partneriaethau, perthnasoedd a threfniadau llywodraethu newydd a ffyrdd newydd o weithio yn effeithio ar gyflawniad ar draws rhai ymrwymiadau. Gan fod llawer o ymrwymiadau'n cynnwys datblygu dulliau newydd yn hytrach na chyflawni rhaglenni sefydledig, mae cynnydd yn dibynnu ar feithrin perthnasoedd effeithiol a ffyrdd cytunedig o weithio cyn y gall y cyflawni gyflymu.

## Y Camau Nesaf

16. Bydd Arweinwyr y Tîm Gweithredol Amcan Llesiant a’r Tîm Arwain yn parhau i fonitro cyflawniad yn erbyn y Llwybrau tuag at Wyrdd y cytunwyd arnynt a chymryd camau cywiro pan fo’r cynnydd yn gwyro oddi wrth y cynllun.

## Argymhellion

17. Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:
    - Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Ch1 Cynllun Busnes 2026/27.
    - Nodi’r adroddiad perfformiad mewnol.
    - Nodi’r prif gyflawniadau a'r lliniariadau a nodwyd yn yr adroddiad.

## Mynegai o Atodiadau

**Atodiad 1 – Tabl a siartiau perfformiad ar gyfer dangosfwrdd y Cynllun Busnes**
**Atodiad 2 – Adroddiad Perfformiad Mewnol**
**Atodiad 3 – Tabl a siartiau perfformiad ar gyfer dangosfwrdd Metrigau Tueddiadau’r Cynllun Busnes**
**Atodiad 4 – Gwasanaeth Cynllunio a Thrwyddedu**

## Proses gymeradwyo / ymgynghori

| | |
|---|---|
| • **Yn gyfrifol:** | **Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a’r Swyddfa Rheoli Rhaglenni) a Prys Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth)** |
| • **Yn atebol:** | Bwrdd CNC |
| • **Ymgynghorwydâ :** | Tîm Arwain (Perchnogion Ymrwymiad a Pherchnogion Metrigau) / Tîm Gweithredol |
| • **Wedi'u hysbysu:** | Tîm Arwain / Tîm Gweithredol / Bwrdd CNC |